

Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Rhaglen waith y Cyngor-nos Iau, 5ed o Fawrth, 2020 yn brydlon am 7:00 y.h. yn Neuadd Llanystumdwy.

1. Ymddiheuriadau.
2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 6ed o Chwefror 2020.
3. Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS mis Chwefror 2020 - gan y Cadeirydd.
4. Datgan buddiant personol.

Materion gan Cyngor Gwynedd.

5. **Llwybrau cyhoeddus** - wedi derbyn gwybodaeth bydd y ffigwr sydd wedi cael ei glustnodi ar gyfer flwyddyn nesaf, 2020/2021 yn aros fel ag yr oedd yn 2019/2020, sef £417.80. Mae'r trefniant ad-dalu wedi cael ei gyfyngu i lwybrau categori 1 a 2, a bydd Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am gynnal y Llwybr Arfordir. **Angen gadael i Mr Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy wybod, os yw'r Cyngor Cymuned yn dymuno parhau i fod yn rhan o'r trefniant ar gyfer 2010/2021.**
6. **Cyngor i drigolion a busnesau'r Sir - "Brexit"** - mae tudalen benodol ar wefan Cyngor Gwynedd yn cyfeirio trigolion a busnesau lleol at wybodaeth berthnasol ar wefannau Llywodraeth Cymru, gweler www.gwynedd.llyw.cymru/brexit
7. **Newidiadau i Bolisi Gosod Tai** - y ffordd mae tai cymdeithasol yng Ngwynedd yn cael ei gosod ar fin newid i roi mwy o bwyslais ar flaenoriaethu pobl leol sydd mewn angen tai. Defnyddir system 'bandio', drwy ddangos ei angen am dŷ a'i cysylltiad gyda Gwynedd.
8. **Cyngor Gwynedd - ceisiadau cynllunio yn y gymuned**
 - a) Cais Rhif: C19/1129/41/DT - Ger Y Ffynnon, Llangybi, Pwllheli,- codi modurdy.
 - b) Cais Rhif: C20/0117/41/LL - Tafarn y Plu, Llanystumdwy - codi llwyfan yng ngardd y tŷ tafarn.
 - c) Cais Rhif: C20/0125/41/LL - Fferm Hendy, Ynys, Cricieth - codi estyniad unllawr to fflat ar flaen yr eiddo.
9. **Swyddfa Archwilio Cymru** - datganiad i'r wasg - Clerc wedi ei anfon at y Cynghorwyr drwy e-bost.
10. **Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol** - adroddiad drafft ar yr egwyddorion sy'n ymwneud ag ad-dalu costau gofal- eisiau ymatebion erbyn 09.04.2020.
11. **Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol** - gan Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn 2020/2021.
12. **Cais Llywodraeth Cymru am wybodaeth - Rhandiroedd**- Llywodraeth Cymru yn cydnabod y buddion amgylcheddol, iechyd a chymdeithasol pwysig y mae rhandiroedd a

mannau gwyrdd yn eu cyfrannu. Mae'r Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol wedi comisiynu'r Gwasanaeth Cyngori Tir Cymunedol (CLAS) i gynnal ymarfer casglu tystiolaeth manwl ac adrodd ar ddarpariaeth gyfredol sydd ar gael. Bydd canfyddiadau CLAS yn llywio polisi Llywodraeth Cymru yn y dyfodol ar randiroedd a mannau gwyrdd yn uniongyrchol. Mae Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol yn gweinyddu gwaith CLAS. Er mwyn casglu'r wybodaeth yma mae angen cwblhau arolwg drwy roi gwybodaeth am unrhyw randiroedd sy'n bodoli o fewn y gymuned. **Angen sylwadau.**

13. Cylch gorchwyl – oherwydd fod gan y Cyngor bwyllgorau eraill, yn dilyn ein archwiliad diwethaf, fe nodwyd y dylid sefydlu cylch gorchwyl yn cynnwys unrhyw ddirprwyo awdurdod ar gyfer unrhyw bwyllgor arall (cyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol). Y Clerc wedi gwneud un ar gyfer y Pwyllgor Cyllid/Busnes, a bydd wedi ei anfon drwy ebost at aelodau o'r Pwyllgor Rheolau Sefydlog a Pholisiau. **Angen trafod ar y noson a'i lofnodi os ydyw'n addas ac yna ei roi ar ein gwefan.**

Materion yn y gymuned.

Llanarmon

14. Llanystumdwy

a) Mainc rhwng Llanystumdwy a Bron Eifion – un o'r pyst rhybudd wedi cael ei falu. **Y Cadeirydd am ddangos 'adlewyrchyd' yn y cyfarfod a fyddai o bosib yn gwneud ar un ochr i'r fainc.**

b) Cysylltiad "Band eang ffeibr" - cais gan Gyngorydd o Lanystumdwy eisiau trafod cael cyswllt 'ffeibr' yn Lanystumdwy oherwydd fod y cyflymdra cyswllt yn araf deg. Mae wedi cysylltu hefo 'Openreach', ond yn ol ei gwefan nid oes bwriad yn y dyfodol agos i gael 'ffeibr' yno. **Angen trafod.**

c) Arwydd pentref Llanystumdwy wrth y fynwent bron a disgyn drosodd. Mae'n edrych fel bod y postion wedi pydru.

15. Rhoslan/Ynys

"Gordyfiant o goed y ddwy ochr i'r ffordd o Rhoslan i Lanystumdwy,(rhwng Ynys Heli a Thyddyn Sianel).

Mae'r tyfiant wedi mynd allan o reolaeth sydd yn ei gwneud yn anodd i ddau gerbyd mawr basio eu gilydd. Mater o amser cyn y bydd damwain yn digwydd ar y lon". **Y Clerc wedi derbyn ymateb gan Mr Alun Roberts, Peirianydd Ardal Pwllheli yn ein hysbysu, "yn dilyn archwiliad ar y cyd hefo Archwiliwr Gorfodaeth yr Uned Traffig a Phrosiectau, ystyrir nad yw cyflwr presennol y terfynau yn cyrraedd y maen prawf angenrheidiol, i gyfiawnhau ymarfer y pwerau dewisol cyflwyno rhybuddion torri gwrychoedd Deddf Priffyrdd 1980 ar y perchnogion/deiliad tir cyfagos". Roedd yn dweud ei fod yn ymddiheuro am hyn, a caiff y sefyllfa ei adolygu yn nhrefn yr archwiliadau diogelwch a wneir o'r ffordd.**

16. Chwilog

a) Bin baw ci - Chwilog - Y Clerc wedi gofyn am bris i osod 'polyn pren' 4" gan Mr William Williams, Plas Newydd, Chwilog er mwyn i Cyngor Gwynedd osod bin yn ymyl arwydd y fynwent. **Gobeithio y bydd wedi derbyn ymateb erbyn y cyfarfod.**

b) Llwybr troed o Chwilog i Afonwen

Y Clerc wedi derbyn ymateb gan Dafydd Elis Thomas, Aelod Cynulliad, ar 07.02.2020 ac ar 27.02.2020. Mae'n cadarnhau ei fod mewn trafodaethau hefo Cyngor Gwynedd ynglŷn â'r cynlluniau, a bod y llwybr ar y rhestr Cynlluniau Teithio Llesol sy'n cael ei datblygu yn bresennol yn Nwyfor.

Yna ar 27.02.2020 mae wedi anfon copi o lythyr gan Mr Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Adran Amgylchedd, Cyngor Gwynedd yn cadarnhau fod cais am arian grant drwy gronfa Llwybrau Diogel yn y Gymuned wedi cael ei gyflwyno i ddatblygu'r llwybr yma, gan ddisgwyl penderfyniad ar y cais ym mis Ebrill eleni.

17. Pencaenewydd/Sardis

18. Llangybi

i) **Graffiti wal fewnol yn yr arosfan bws yn Llangybi** - y Clerc wedi cysylltu hefo Clwb Ffermwyr Ifanc Llangybi i holi os fyddai diddordeb ganddynt mewn peintio tu mewn i'r arosfan, ac efallai baentio llun/murlun yno, ond i adael i'r Clerc wybod gyntaf, a byddai'n Cyngor Cymuned yn fodlon talu am y paent.

Wedi derbyn ateb yn dweud ei bod eisiau peintio llun o Ffynnon Cybi yn yr arosfan bws, tebyg i'r llun ar logo'r Clwb Ffermwyr Ifanc. Angen trafod.

ii) **Arwyddbost yn Llangybi** - derbyn ymholiad i gael arwydd newydd wrth yr arosfan bws, oherwydd nad oes un yno rwan. Angen un yn nodi cyfeiriad i Bryncir, Llangybi a Llanarmon. **Clerc wedi derbyn ymateb gan Peiriannydd Ardal Dwyfor yn dweud ei bod am ystyried y posibilrwydd ar y cyd hefo'r Uned Traffig yng Nghaernarfon, gan nodi fod yna bostyn yno'n barod gerllaw.**

iii) **Rhwng Ty'n Rhos a Groeslon Bronallt, Llangybi** - cyflwr ochr y lon yn beryglus ar ol glaw trwm gan fod y ffos wedi cau ac mae dail a 'mwd' yn achosi'r dwr lifo ar hyd y lon. **Clerc wedi derbyn ymateb gan Peiriannydd Ardal Dwyfor, yn dweud fod moduron yn gyrru oddi ar ymyl y gerbydlon yn broblem eithaf cyffredin ar rwydwaith ffyrdd gwledig ardal Dwyfor. Dywedodd fod maint cerbydau, lorïau, tractorau a cherbydau amaethyddol wedi mynd yn lawer mwy o ran maint ac mae taro gwrychoedd ac ymylon ffosydd yn broblem. Dywedodd nad oedd arian cyfalaf ar hyn o bryd i wella'r sefyllfaoedd yma drwy baratoi man wellianau. Dywedwyd y byddent yn edrych ar y posibilrwydd o be ellir ei wneud yn y llecyn dan sylw ond na allai roi addewid i baratoi'r datrysiad dymunol am y rheswm nodwyd.**

iv) **"Pant yn y ffordd o Langybi i Fryncir ger y Lon Goed yn dyfnhau** yn raddol. Mae hyn tua 100 llath cyn cyrraedd y Lon Goed o gyfeiriad Cefn Pencoed ger lle mae gwinllan fechan ar yr ochr dde i'r ffordd". **Y Clerc wedi hysbysu Cyngor Gwynedd, ac wedi anfon llun, disgwyl ymateb.**

v) **Tyddyn Llan, Llangybi** - Mae'r gwter sy'n cymryd dwr glaw drwy'r rhan yma o'r pentref ger y fynedfa i'r ffordd bob amser yn ddiffygiol ac mae angen ei lanhau yn gyson (nes bod tomen fawr o wastraff gerllaw). Y rhan fwyaf o'r amser rhaid moduro trwy lyn mawr o ddwr wrth fynd i'r ffordd.

Materion Ariannol

19. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

Cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud, ac y rhagwelir sydd angen ei wneud erbyn diwedd Mawrth 2020, drwy ffurf rhestr 'excel'.

Angen i'r Cadeirydd lofnodi'r ddogfen, fydd yn cael ei diweddarau'n fisol.

20. **Archwilio mewnol** – wedi derbyn ateb gan Adran Archwilio Cyngor Gwynedd yn dweud ei bod yn fodlon gwneud yr archwiliad am y flwyddyn sy'n dod.

21. **Pont Llanystumdwy - clirio tir y Cyngor yn Maenywern,-** angen trafod os oes angen gwneud hyn rwan cyn i'r coed/tyfiant dyfu'n ormodol.

22. Cwmni Lightsource, fferm solar Tyddyn Gwyn, Gelli Gron – wedi derbyn **taliad £3951.39 ganddynt ar 07.02.2020**, ac fe gafodd ei dalu i'r cyfrif Budd Cymunedol.

23. Llythyrau/e-byst yn diolch am gyfraniadau ariannol gan y Cyngor Cymuned Llanystumdwy:-

1. Clwb Ffermwyr Ifanc Llangybi.
2. Cymdeithas Adloniant Capel Pencaenewydd
3. Mynwent Capel Helyg, Llangybi
4. Mynwent Rydd ac Anenwadol Chwilog
5. Neuadd Llanystumdwy
6. Neuadd Chwilog
7. Eisteddfod Gadeiriol Chwilog
8. Clwb Peldroed Llanystumdwy
9. Cwmni Drama Llanystumdwy
10. Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2021
11. Menter y Plu
12. Clwb Snwcer Chwilog
13. Cymdeithas Paréd Dewi Sant
14. Theatr Bara Caws
15. Dawns i Bawb
16. Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2020, Sir Ddinbych

24. Anfonebau angen eu talu:- drwy BACS.

Enw	Rheswm	Pris £	TAW £	Cyfanswm £	Taliad BACS
ALCC	Tâl aelodaeth blynyddol (2020/21)	40.00	-	40.00	<u>40.00</u>
SLCC	Tâl aelodaeth blynyddol (2020/21)	109.00		109.00	<u>109.00</u>
Criccieth Cleaning	Glanhau arosfanau bws 01.02.2020 -anfoneb 2607	166.50	33.30	199.80	<u>199.80</u>
Gareth Jones, Ty Gwyn, Caeathro	Cynnal a chadw Bedd Lloyd George tymor 2019/2020 (0902)	250.00	-	250.00	<u>250.00</u>
Un Llais Cymru Tâl Aelodaeth 2020/2021 (yn seiliedig ar 922 o anheddau trethadwy/ Rhestr Brisio)	309.00	309.00			<u>309.00</u>

Neuadd Llanystumdwy-llogi	Llogi'r Neuadd 3 gwaith, 09.01.20 & 06.02.20 & 05.03.20	60.00	-	60.00	<u>60.00</u>
------------------------------	--	-------	---	-------	--------------

Cyflog mis Chwefror 2020 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM:-

Enw/Rheswm	Swm £	Cyfanswm Taliad net £	Taliad siec rhif:-
Cyflog sylfaenol y Clerc, Chwefror 2020 35 awr x £10.37 = £362.95	362.95-llai treth £72.60	<u>290.35</u>	101156
Cyllid a Thollau EM- Treth ar enillion y Clerc Chwefror 2020	362.95 x 20% = llai treth £72.60	<u>72.60</u>	101157
Costau'r Clerc Chwefror 2020 & 5 stamp i anfon rhaglen i'r Cynghorydd W.I.Hughes & 4 llythyr cymorth ariannol.	16.00 0.61	<u>19.05</u>	101158

It is possible to get an English translation, please contact the Clerk